

# Canllawiau i ganolfannau sy'n rheoli arholiadau – cyfres Mehefin 2022

## 1. Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i arholiadau wedi'u hamserlennu ar gyfer cymwysterau cyffredinol a gynhelir yng nghyfres Mehefin 2022. Mae'n amlinellu'r hyblygrwydd presennol yn ogystal â newidiadau i'r rheolau arferol ar gyfer cynnal arholiadau ac mae wedi'i gynllunio i gefnogi canolfannau sy'n wynebu amharu, gan gynnwys amharu oherwydd Covid-19. Efallai yr hoffai canolfannau ystyried y ddogfen hon ar y cyd â'u cynlluniau wrth gefn eu hunain cyn dechrau'r gyfres arholiadau.

I gael gwybodaeth fanwl, cyfeiriwch at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*:

### [Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau](#)

Mae cyrff dyfarnu'r CGC sy'n darparu cymwysterau galwedigaethol wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith hefyd i gefnogi ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau yr haf hwn. Bydd y mesurau hyn wedi'u cyhoeddi gan y cyrff dyfarnu perthnasol.

## 2. Amseroedd cychwyn cyhoeddedig

Fel arfer, caniateir i ganolfannau amrywio amseroedd cychwyn cyhoeddedig arholiadau y corff dyfarnu hyd at 30 munud, yn unol ag adran 6 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*. Ar gyfer cyfres Mehefin 2022 yn unig, os nad yw canolfannau yn gallu cychwyn arholiad o fewn 30 munud i'r amser cychwyn cyhoeddedig, gellir cychwyn yr arholiad yn hwyrach ar yr amod ei fod yn cael ei gynnal ar y dyddiad sydd wedi'i amserlennu a bod aelod o staff y ganolfan yn goruchwylio ymgeiswyr o ddim hwyrach na 30 munud ar ôl yr amser cychwyn cyhoeddedig tan y bydd yr arholiad yn cychwyn (paragraff 6.5 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*).

**Rhaid** i aelod o staff y ganolfan neu oruchwyliwr oruchwylio'r ymgeiswyr yn unol â'r gofynion a nodir ym mharagraff 7.5 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*. Dan yr amgylchiadau hyn, **rhaid** i'r ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol ar ddiwrnod yr arholiad, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 5 y ddogfen hon i esbonio'r amgylchiadau. Os yw grwpiau o ymgeiswyr i fod i sefyll yr arholiad mewn ystafelloedd gwahanol, gall canolfannau ddechrau pob grŵp cyn gynted ag y byddant yn barod, ar yr amod bod yr ymgeiswyr sydd ar ôl yn parhau i gael eu goruchwylio.

## 3. Lleoliad arholiadau

Os oes angen i ganolfan symud arholiad i safle arall, dylent gyfeirio at ganllawiau'r CGC ar drefniadau safle arall:

## Canllawiau ar Drefniadau Safle Arall 2021-22

Fel arfer, **rhaid** cyflwyno'r hysbysiad o'r bwriad i gynnal arholiadau mewn safle arall ar-lein yn ddim hwyrach na chwe wythnos cyn dechrau'r gyfres arholiadau. Fodd bynnag, os yw'r hysbysiad i ymgeisydd sefyll arholiad gartref neu yn yr ysbyty oherwydd cyflwr meddygol, efallai na fydd yn bosibl cyflwyno'r wybodaeth chwe wythnos ymlaen llaw. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid gwneud cyflwyniad hwyr cyn gynted ag y byddwch yn gwybod y manylion.

Ar gyfer cyfres Mehefin 2022, dylai canolfannau barhau i ddefnyddio'r broses hon os oes angen iddynt symud arholiad a dylent gyflwyno eu hysbysiad cyn gynted ag y gallant. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd os oes angen rhannu carfan o ymgeiswyr a symud un grŵp o ymgeiswyr i safle arall. Pan ddefnyddir safle arall, **rhaid** i bapurau cwestiynau barhau i gael eu storio'n ddiogel tan 90 munud cyn amser cychwyn cyhoeddedig yr arholiad a chael eu cludo i'r safle arall gan aelod o staff y ganolfan, yn unol â pharagraff 11.3 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*.

### 4. Gofynion goruchwylio

Fel arfer, mae'n ofynnol i ganolfannau sicrhau bod o leiaf un goruchwyliwr yn bresennol ar gyfer pob grŵp o 30 o ymgeiswyr neu lai sy'n sefyll arholiadau ysgrifenedig, ac o leiaf un goruchwyliwr yn bresennol ar gyfer pob grŵp o 20 o ymgeiswyr neu lai sy'n cwblhau asesiadau ymarferol (e.e., Celf a Dylunio, Gwyddoniaeth Gymhwysol). Nodir y gofynion goruchwylio yn adran 12 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*.

Ar gyfer cyfres Mehefin 2022 yn unig, lle nad yw'n bosibl i'r ganolfan fodloni'r gofynion safonol, gellir cynnal arholiadau ar yr amod bod:

- o leiaf un goruchwyliwr yn bresennol ar gyfer pob grŵp o 40 ymgeiswyr neu lai sy'n sefyll arholiadau ysgrifenedig; ac
- o leiaf un goruchwyliwr yn bresennol ar gyfer pob grŵp o 30 o ymgeiswyr neu lai sy'n cwblhau asesiadau ymarferol (e.e., Celf a Dylunio, Gwyddoniaeth Gymhwysol).

Mewn achosion eithriadol, lle mae'r ganolfan wedi ystyried pob opsiwn arall i fodloni'r cymarebau diwygiedig uchod, gall yr arholiad barhau gyda'r goruchwylwyr sydd ar gael ar yr amod bod y ganolfan yn hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol ar ddiwrnod yr arholiad i esbonio'r amgylchiadau, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 5 y ddogfen hon. Yna bydd y corff dyfarnu yn penderfynu a ellir derbyn y sgriptiau ai peidio.

Os nad yw pennaeth y ganolfan neu'r dirprwy dynodedig yn hyderus y gellir cynnal yr arholiad ag uniondeb gyda'r goruchwylwyr sydd ar gael, gallent ystyried gohirio'r arholiad tan yn hwyrach yn y dydd neu rannu'r garfan yn grwpiau gwahanol o ymgeiswyr. Pan fydd arholiad wedi'i ohirio, **rhaid** goruchwylio ymgeiswyr bob amser yn unol â pharagraff 7.5 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau*.

## 5. Athrawon pwnc fel goruchwylwyr

Dan amgylchiadau arferol, **ni ddylai** athro, tiwtor neu uwch aelod o staff y ganolfan sy'n addysgu'r pwnc sy'n cael ei arholi fod yn oruchwylwr ar gyfer arholiad yn y pwnc hwnnw. Ar gyfer cyfres Mehefin 2022 yn unig, lle nad oes goruchwylwyr addas eraill ar gael, gall athrawon pwnc oruchwylwio arholiad yn eu pwnc eu hunain. Gall penaethiaid canolfannau ystyried trefniadau cytundebol lleol cyn y gyfres arholiadau fel rhan o'u cynlluniau wrth gefn.

**Rhaid** briffio goruchwylwyr sydd â gwybodaeth am y pwnc i fod yn arbennig o ofalus i beidio â dylanwadu ar ymatebion yr ymgeiswyr i gynnwys y papur cwestiynau. **Ni ddylai** goruchwylwr o'r fath oruchwylwio ar ei ben ei hun na bod yn brif oruchwylwr ar gyfer grŵp o ymgeiswyr y mae wedi'u haddysgu.

Pan ofynnir i staff nad ydynt fel arfer yn ymwneud â goruchwylwio i oruchwylwio arholiad, rhaid iddynt bob amser gael mynediad i'r ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau* a bod yn gyfarwydd â'r Rhestr Wirio i Oruchwylwyr:

### [Rhestr Wirio i Oruchwylwyr](#)

Bydd adrannau 20-27 ac Atodiad 3 y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau* yn arbennig o berthnasol.

## 6. Mynd i'r afael â heriau i ymgeiswyr unigol

Lluniwyd yr egwyddorion canlynol i alluogi ymgeiswyr i gael y cyfle gorau i dderbyn cymhwyster a dylid cadw atynt yn y drefn a nodir:

- Lle y bo'n bosibl, dylid cwblhau pob arholiad dan yr amodau priodol ac o fewn amgylchedd y ganolfan. Mae hyn yn gwarchod buddiannau'r ymgeisydd, y ganolfan ac uniondeb y system arholiadau. Felly, disgwylir i ganolfannau wneud pob ymdrech i sicrhau y gall hyn ddigwydd ar gyfer eu holl ymgeiswyr sydd i fod i sefyll arholiadau yn haf 2022.
- Os nad yw ymgeisydd yn gallu sefyll yr arholiad yn y ganolfan, gall y ganolfan wneud cais i'r arholiad gael ei sefyll ar safle arall (e.e. cartref yr ymgeisydd neu ysbyty) ac anfon goruchwylwr i'r safle arall i oruchwylwio'n bersonol.
- Lle nad yw'r un o'r uchod yn bosibl, ond bod rhai arholiadau yn y cymhwyster eisoes wedi'u cwblhau, neu fod modd eu cwblhau, gradd wedi'i chyfrifo (enw arall ar hyn yw 'aegrotat') yw'r ffordd fwyaf priodol o bosibl o sicrhau nad yw ymgeisydd unigol dan anfantais, ar yr amod bod y meini prawf cyhoeddedig ar gyfer ystyriaeth arbennig wedi'u bodloni. Dylai canolfannau wneud cais ar gyfer cymhwysio ystyriaeth arbennig yn y ffordd arferol.
- Os nad yw ymgeisydd yn gallu sefyll unrhyw arholiadau ym mis Mai/Mehefin, dylai eu sefyll mewn cyfres ddiweddarach lle mae hyn yn bosibl (e.e. Tachwedd 2022 os yw'r

cymhwyster penodol ar gael bryd hynny neu, os nad oes angen iddo ardystio yn 2022, cyfres yn y dyfodol).

## 7. Goruchwylio o bell

Gellir caniatáu goruchwylio o bell ar gyfer ymgeisydd unigol mewn achosion eithriadol iawn lle mae'r holl opsiynau eraill wedi'u hystyried a byddai'r ymgeisydd fel arall dan anfantais. **Dim ond** pan fydd corff dyfarnu wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw i'r trefniant y dylid defnyddio goruchwylio o bell. **Ni fydd** yn cael ei ganiatáu ar ddiwrnod arholiad.

Os yw canolfan o'r farn bod achos eithriadol y gellid caniatáu goruchwylio o bell ar ei gyfer, **rhaid** iddynt gysylltu â'u corff dyfarnu i gael rhagor o wybodaeth fanwl am y gofynion. Dylai'r ganolfan ystyried a ellid bodloni'r gofynion hyn ac yna **rhaid** iddynt ofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y corff dyfarnu perthnasol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 5.

## Manylion cyswilt y cyrff dyfarnu

AQA [Irregularities-N@aqa.org.uk](mailto:Irregularities-N@aqa.org.uk)  
CCEA [centresupport@ccea.org.uk](mailto:centresupport@ccea.org.uk)  
OCR [support@ocr.org.uk](mailto:support@ocr.org.uk)  
Pearson [uk.special.requirements@pearson.com](mailto:uk.special.requirements@pearson.com)  
CBAC [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)

Rhif Ffôn 02890 261425